

HER GAME, EI DYFODOL

Cynllun Pêl-Droed Menywod A Merched 2026-2036

HER GAME, EI DYFODOL

Cymdeithas Bêl-Droed Cymru

CYNNWYS

1. **Cyflwyniad I strategaeth, Her Game, Ei Dyfodol** 3

2. **Her Game**
   - Cynydd Dros y Blynyddoedd 5
   - Her game mewn Rhifau 7

3. **Ei Dyfodol**
   - Fframwaith Strategol 8
   - Arloeswyr 9
   - Llwybr 10
   - Piler - Cymryd rhan 12
   - Piler - Perfformiad 28

4. **Bod yn Rhan o Her Game, Ei Dyfodol** 42

CYFLWYNIAD

Mae pêl-droed menywod a merched yng Nghymru wedi camu i gyfnod newydd o dwf a chyfleoedd. Dros y blynyddoedd diwethaf, mae'r gêm wedi datblygu'n gyflym, dan ddylanwad arweinyddiaeth gref, ymrwymiad hirdymor ac ymroddiad y rheiny sydd wedi hyrwyddo a datblygu'r gêm ymhell cyn iddi ennill cydnabyddiaeth ehangach. Heddiw, mae gennym gyfle i adeiladu ar y sylfaen honno a chodi pêl-droed menywod a merched i lefel newydd.

Cafodd ymrwymiad Cymdeithas Bêl-droed Cymru (CBDC) ei ffurfioli yn 2021 drwy lansio Ein Cymru Ni: Iddi Hi, ein strategaeth gyntaf benodol ar gyfer pêl-droed menywod a merched. Ers hynny, mae'r gêm wedi tyfu o fod yn gymuned sy'n datblygu i fod yn symudiad cenedlaethol, gyda

lefelau cymryd rhan yn cynyddu,
y gêm yn dod yn fwy gweledol, safonau cynyddol ac uchelgais sy'n tyfu ar draws y gêm. Y ffocws dros y ddegawd nesaf yw manteisio ar y momentwm hwn, cyflymu cynnydd a sefydlu gêm fenywaidd gynaliadwy o safon uchel yng Nghymru.



Mae mwy o ferched nag erioed yn datblygu diddordeb mewn pêl-droed, gan greu cyfle cyffrous i adeiladu perthynas fythgofiadwy gyda'r gêm. Ein huchelgais yw sicrhau bod pob merch yn cael y cyfle i brofi pêl-droed mewn amgylchedd lle y gall hi ffynnu, teimlo ymdeimlad o berthyn a chyflawni ei photensial.
Ynghyd â lefelau cymryd rhan, mae'r gêm ddomestig yn datblygu, gyda mwy o chwaraewyr yn pontio i bêl-droed proffesiynol a c hlybiau yn parhau i gryfhau eu strwythurau a'u safonau.

Mae llwyddo i gyrraedd twrnamaint mawr wedi codi proffil tîm cenedlaethol menywod Cymru, gan ysgogi balchder cenedlaethol a chreu disgwyliadau newydd o ran yr hyn sy'n bosibl. Mae diddordeb a buddsoddiad masnachol hefyd yn cynyddu, gan roi llwyfan cryfach i'r gêm barhau i ddatblygu.

Dros y degawd nesaf, mae gan bêl-droed benywaidd yng Nghymru y potensial i drawsnewid ymhellach. Mae'r strategaeth hon yn gosod gweledigaeth uchelgeisiol hirdymor ar gyfer y gêm, o'r profiad cyntaf hyd at y lefelau perfformio, arwain a chefnogi uchaf. Mae'n gosod cyfeiriad clir, gan gydnabod y bydd y gêm yn parhau i esblygu. Bydd adolygiad ffurfiol yng nghanol cyfnod y strategaeth yn sicrhau bod ein huchelgais yn parhau i fod yn berthnasol, yn ymatebol ac yn gallu cynnal cyflymder y newid.

Trwy'r strategaeth hon, byddwn yn adeiladu ar y cynnydd sydd e isoes wedi'i gyflawni ac yn creu cyfleoedd newydd i fenywod a merched gymryd rhan, mwynhau, perthyn a llwyddo mewn pêl-droed. Gyda'n gilydd, byddwn yn defnyddio pŵer pêl-droed i adeiladu Cymru hyderus, lwyddiannus a chynhwysol.



This is HER GAME. EI DYFODOL.

HER GAME

TAITH PÊL-DROED BENYWAIDD YNG NGHYMRU

1970
CBDC yn codi'r gwaharddiad ar bêl-droed menywod.

1973
Tîm menywod Cymru yn chwarae eu gêm gyntaf erioed. Roedd hwn yn dîm answyddogol heb unrhyw gysylltiad â CBDC.

1993
Chwaraewyr arloesol yn dwyn perswâd ar CBDC i gymryd awenau tîm cenedlaethol y menywod gyda'u gêm gyfeillgar swyddogol gyntaf yn erbyn Gwlad yr Iâ.

1995
Tîm cenedlaethol y menywod yn cystadlu yng Ngemau Rhagbrofol Ewro UEFA 1995 am y tro cyntaf erioed.

2009
Lansio uwch gynghrair menywod gyda 2 gynghrair ranbarthol o 4 tîm.

2012
Uwch Gynghrair Genedlaethol Menywod yn cynnwys 10 tîm.

2014–2019
8 tîm yn tynnu'n ôl o'r gynghrair gan nad oedd ganddynt ddigon o chwaraewyr i greu tîm.

2020
Noddwr cyntaf y gynghrair a'r gêm gyntaf i'w darlledu'n fyw.

2021
CBDC yn ail-frandio ac yn ailstrwythuro'r gêm ddomestig fenywaidd gan ffurfio'r Cynghreiriau Adran sy'n gyfarwydd i ni heddiw.

2021
Lansio strategaeth gyntaf CBDC ar gyfer pêl-droed menywod a merched 'Iddi Hi'.

2024
Cymru yn cyrraedd eu twrnamaint mawr cyntaf.

2025
Cymru yn cystadlu yn Ewro 2025 Menywod UEFA.

2025
Rhaglen Waddol I Ni, Iddyn Nhw, Iddi Hi WEURO 2025 yn ennill y fenter bêl-droed benywaidd orau yng Ngwobrau'r World Football Summit.

2025
Cyrraedd 20,000 o chwaraewyr benywaidd cofrestredig.


Euro 2025
...FOR US. FOR THEM. FO
19

HER GAME

PÊL-DROED MENYWOD A MERCHED YNG NGHYMRU

#1 Chwaraeon tîm yn y wlad o ran lefelau cymryd rhan.

20,000 o chwaraewyr benywaidd cofrestredig.

11 o Glybiau Academi Cenedlaethol ar gyfer Merched.

594 o hyfforddwyr benywaidd gweithredol.

o ddyfarnwyr gweithredol. 56

1 Dyfarnwr rhyngwladol gweithredol.

31 ar Restr FIFA o Dimau Benywaidd Cenedlaethol.

Dimau wedi tynnu'n ôl o'r Adran Premier ers y diwygio yn 2021. 0

4 Clwb yn cynnig contractau proffesiynol.

UEFA 3 Dyfarnwr cynorthwyol gweithredol.

33 BILIWN Cyrhaeddiad ar draws pob cyfrwng o gynnwys Ewro 2025 menywod.

5 Clwb gyda rolau llawn amser penodol ar gyfer pêl-droed menywod.

2 Noddwr Menywod yn unig.

£4.6M miliwn Buddsoddiad tuag at bêl-droed benywaidd (£2 miliwn yn uwch na'r targed yn Strategaeth Iddi Hi 2021-2026).

60 o Fenywod yn cymryd rhan yn rhaglen fentora BE Football.

Torf fwyaf erioed ar gyfer gêm tîm cenedlaethol menywod Cymru. 16,845

23% o Gyngor CBDC yn fenywod.

33% o Fwrdd CBDC yn fenywod.

NOD BARCUD RHAGORIAETH FIFA®

5 o chwaraewyr yn graddio i Dîm Cenedlaethol Cymru mewn 2 flynedd.

HER GAME, EI DYFODOL

Pwrpas: Adeiladu Cymru hyderus, lwyddiannus a chynhwysol trwy bêl-droed.

Uchelgais: Tyfu lefelau cymryd rhan a pherfformio'n lwyddiannus ar lwyfan y byd - i Gymru.

Gwerthoedd:

Rhagoriaeth / Teulu / Parch / Dewrder

Egwyddorion Canllaw:

- Mae pêl-droed wrth wraidd popeth a wnawn.
- Dathlu ein hunaniaeth Gymreig.
- Annog lwyddiant ar y cyd trwy gydweithio.
- Tryloyw o ran yr effaith a gawn.

Pobl:

Datblygu a chefnogi gweithlu a rhwydwaith gwirfoddol amrywiol a medrus, gan greu llwybrau hygyrch i fenywod ddysgu, datblygu, arwain a ffynnu ar draws y gêm.

Deall ac ymateb i brofiadau byw, anghenion a dyheadau menywod a merched, gan ddefnyddio data, dealltwriaeth a thystiolaeth i greu gwelliannau gwirioneddol ar draws y gêm.

Llwybrau:


Creu llwybrau hygyrch, cynhwysol a chynaliadwy i bob menyw a merch allu mwynhau, cymryd rhan a chystadlu mewn pêl-droed yng Nghymru.

Ysbrydoli mwy o fenywod a merched i gymryd rhan mewn pêl-droed, cysylltu â'r gêm a datblygu ymdeimlad o berthyn.

Lleoedd:

Sefydlu'r gem fenywaidd fel enghraifft o arfer gorau mewn perthynas ag ymddygiad, disgyblaeth a diwylliant positif.

Cynyddu buddsoddiad a gwella mynediad at chwarae pêl-droed trwy ymyriadau wedi'u targedu.



Pobl:

Datblygu llwybr hyfforddi a dyfarnu perfformiad uchel sy'n datblygu talent Gymreig yn barhaus ac yn cefnogi hyfforddwyr a swyddogion gemau i ragori ar bob lefel o'r gêm fenywaidd.

Llwybrau:

Creu llwybr datblygu chwaraewyr sy'n nodi, datblygu a pharatoi talent Gymreig i lwyddo ar y lefel uchaf.

Sefydlu'r Cynghreiriau Adran fel amgylchedd cynaliadwy a chystadleuol o ansawdd ar gyfer datblygu talent ifanc Gymreig a pharatoi chwaraewyr ar gyfer y gêm broffesiynol.

Lleoedd:

Creu amgylcheddau perfformio o safon fyd-eang sy'n canolbwyntio ar y chwaraewr ac yn gwneud y mwyaf o botensial, lles a pherfformiad timau a chwaraewyr Cenedlaethol Cymru.

Cryfhau'r cysylltiad rhwng Timau Cenedlaethol Cymru a chymunedau ledled Cymru, gan ysbrydoli balchder, ymdeimlad o berthyn a chysylltiad gydol oes gyda'r gêm fenywaidd.

GALLUOGWYR

- Cystadlaethau
- Cyfleusterau
- Hyfforddwyr a Dyfarnwyr
- Cytathrebu
- Masnochol a Marchnata
- Materion Allanol, Diwylliant a'r Gymraeg
- Cyllid
- Adnoddau Dynol
- Data a Mewnwelediad
- Llywodraethiant a Chydymffurfiaeth
- Hygrededd
- Diogelu
- Cynaliadwyedd Amgylcheddol
- Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant

HER GAME, EI DYFODOL

ARLOESWYR

- 40,000 o fenywod yn chwarae pêl-droed ar draws Cymru
- Cymru yn cyrraedd camau terfynol Cwpan y Byd Menywod FIFA 2035
- Pob ysgol yng Nghymru yn cynnig cyfleoedd ystyrlon i ferched chwarae pêl-droed
- Torf fwyaf erioed o 25,000 yn dod i wylio gem ryngwladol tîm menywod Cymru
- Dyblu'r buddsoddiad mewn pêl-droed Menywod a Merched
- Cymru yn cynnal Rownd Derfynol Cynghrair Pencampwyr Menywod UEFA

LLWYBRAU PÊL-DROED CYMERADWY CBDC

Un gêm. Llwybrau di-ri. Cyfleoedd oes

LLWYBR PERFFORMIAD CYMERADWY CBDC

ADNABOD TALENT
Nodi a chefnogi chwaraewyr gyda photensial.

ACADEMÏAU CLWB PROFFESIYNOL
Hyfforddiant a datblygiad elît i bobl ifanc o fewn clybiau proffesiynol.

ACADEMÏAU CBDC
Hybiau talent i ddatblygu chwaraewyr domestig o fewn hunaniaeth y Ffordd Gymreig.

PÊL-DROED PROFFESIYNOL
Cystadlu ar y lefelau uchaf.

CYSTADLAETHAU DOMESTIG
Cystadlu yn y gêm ddomestig.

CYNRYCHIOLI CYMRU YN Y TIMAU CENEDLAETHOL

LLWYBR CYMRYD RHAN CYMERADWY CBDC

CLYBIAU CYSYLLTIEDIG CBDC

BLYNYDDOEDD CYNNAR
(2-5 oed)
Sgiliau symud sylfaenol ac ymgysylltu â rhieni.

PÊL-DROED LLAI
(6-13 oed)
Gwneud ffrindiau, datblygu sgiliau a deallturiaeth. 6-11 oed ddim yn gystadleuol.

PÊL-DROED IAU
(14-17 oed)
Datblygu potensial, cystadlu a pharatoi at bêl-droed oedolion.

PÊL-DROED IAU AC OEDOLION
(16 oed +)
Cadw'n heini, mwynhau'r gêm a chefnogi eraill.

FFORMATAU HYBLYG CYMERADWY CBDC

Fformatau enghreifftiol sydd ar gael

FUTSAL
Gemau llai. Cyflym. Technegol.

PÊL-DROED ANABLEDD
Pêl-droed cynhwysol i bawb.

PÊL-DROED HŶN
Pêl-droed ar gyfer chwaraewyr 35au, 45au, 55au a drosodd.

PÊL-DROED CERDDED
Cadw'n heini, cymryd rhan.

PÊL-DROED LLAI
Iechyd a lles.

RHAGLENNI CBDC
Anghystadleuol, hygyrch a chynhwysol.

PÊL-DROED AM OES


RHINO
RHINO
Coffiology



PILER CYMRYD RHAN.

POBL.

AMCAN.

Datblygu a chefnogi gweithlu a rhwydwaith gwirfoddol amrywiol a medrus, gan greu llwybrau hygyrch i fenywod ddysgu, datblygu, arwain a ffynnu ar draws y gêm.



BLAENORIAETHAU

- Darparu llwybrau addysg, datblygu a recriwtio hygyrch i gynyddu nifer yr hyfforddwyr, dyfarnwyr a gwirfoddolwyr ar hyd a lled y gêm.
- Defnyddio data a deallltwriaeth i gryfhau dosbarthiad, datblygiad a chynnal lefelau ar draws llwybrau hyfforddi, dyfarnu, gwirfoddoli ac arwain, gan sicrhau bod gan fenywod gyfleoedd gwirioneddol i ragori.
- Sicrhau bod gan bob hyfforddwr a grwpiau gweithlu yr wybodaeth, yr addysg a'r adnoddau sydd eu hangen arnynt i ddeall ac ymateb i anghenion penodol menywod a merched, gan gynnwys iechyd benywaidd, mamolaeth, lles meddyliol a diogelu.
- Cryfhau rhaglenni datblygu, rhwydweithiau a chyfleoedd mentora ar gyfer menywod, gan alluogi merched i feithrin hyder, sgiliau a phrofiad a symud i rolau gwirfoddol, cyflogedig ac arwain ar draws pêl-droed.
- Normaleiddio cynrychiolaeth menywod ar draws pob rhan o bêl-droed, o rolau cefnogi ar y cae a swyddi technegol i lywodraethiant clybiau, cynghreiriau, Cymdeithasau Ardal a chenedlaethol, gyda ffocws arbennig ar gynyddu cynrychiolaeth o gymunedau heb gynrychiolaeth ddigonol.

MESUR LLWYDDIANT

- Cynnydd 40% mewn hyfforddwyr benywaidd gweithredol
- Cynyddu nifer y dyfarnwyr benywaidd cofrestredig bedair gwaith, gyda 80% o ddyfarnwyr benywaidd cofrestredig yn weithredol
- 75% o wirfoddolwyr yn nodi bod ganddynt y gefnogaeth a'r adnoddau i lwyddo yn eu rôl
- O'r menywod sy'n cwblhau rhaglenni datblygu CBDC, mae o leiaf 80% wedi llwyddo i sicrhau gwaith gwirfoddol neu gyflogedig mewn pêl-droed gydag o leiaf 10% yn dod o gymunedau Du, Asiaidd a Chymysg
- Adolygu adnoddau iechyd benywaidd bob blwyddyn i sicrhau bod yr wybodaeth a rennir yn gyfoes ac wedi'i chefnogi gan yr ymchwil diweddaraf.
- Bwrdd, Cyngor a Gweithlu CBDC gyda chynrychiolaeth benywaidd 50% a Chymdeithasau Ardal, cynghreiriau cymysg a menywod, a phwyllgorau clybiau gyda chynrychiolaeth rhywedd sydd o leiaf 40% yn fenywaidd.

AMCAN.

Deall ac ymateb i brofiadau byw, anghenion a dyheadau menywod a merched, gan ddefnyddio data, deallltwriaeth a thystiolaeth i greu gwelliannau gwirioneddol ar draws y gêm.



BLAENORIAETHAU

- Creu cyfleoedd ystyrlon a rheolaidd i fenywod a merched rannu eu profiadau, eu hanghenion a'u dyheadau, gan sicrhau bod eu lleisiau'n rhan o ddatblygu a chynnal y gêm.
- Mesur a dangos amanteision cymdeithasol ac iechyd pêl-droed Menywod a Merched, gan ddefnyddio tystiolaeth i ddangos pŵer pêl-droed i wella bywydau a chreu effaith gymdeithasol ehangach.
- Defnyddio technoleg ddigidol, data ac ymchwil i ddeall lefelau cymryd rhan, profiadau, anghenion a rhwystrau ar draws y gêm fenywaidd, gan drosi dealltwriaeth yn benderfyniadau a gweithredoedd sy'n seiliedig ar dystiolaeth.

MESUR LLWYDDIANT

- Mesur a nodi'n flynyddol Faint o Fuddiant Cymdeithasol sy'n deillio o raglenni a gwasanaethau pêl-droed ar gyfer Menywod a Merched.
- Cynnal adolygiadau profiad byw dwywaith y flwyddyn gyda menywod a merched, gan drosi'r canfyddiadau yn weithredoedd ac yn welliannau clir.

LLWYBRAU.

AMCAN.

Creu llwybrau hygyrch, cynhwysol a chynaliadwy i bob menyw a merch allu mwynhau, cymryd rhan a chystadlu mewn pêl-droed yng Nghymru.



BLAENORIAETHAU

- Cynyddu cyfleoedd i ferched 5-11 oed trwy ysgolion, clybiau a fformatau hyblyg, gan sicrhau bod cyfle i bob merch brofi pêl-droed a dewis cymryd rhan.
- Creu cyfleoedd hygyrch a hyblyg i fenywod roi cynnig ar bêl-droed, dychwelyd at bêl-droed a pharhau i ymwneud â phêl-droed, gan gynnwys fformatau chwarae hamddenol ac amgen.
- Nodi a mynd i'r afael â'r prif rwystrau a'r pwyntiau lle mae merched 12-17 oed yn troi eu cefn ar y gêm, gan greu amgylcheddau a chyfleoedd sy'n cefnogi lefelau cymryd rhan a datblygiad parhaus.
- Parhau i ddatblygu pyramid a chalendr cystadlaethau menywod a merched yn unol â'r twf mewn lefelau cymryd rhan, gan gynnig mwy o hyblygrwydd, cysondeb a dewis gan leihau nifer y gemau a gaiff eu canslo a'r chwaraewyr sy'n gadael y gêm.
- Ehangu a gwella rhaglenni cymryd rhan ar gyfer menywod a merched sydd ag anabledd.
- Gweithio gyda'r llywodraeth a phartneriaid strategol i ddylanwadu ar bolisi, buddsoddiad a newid cymdeithasol ehangach sy'n cael gwared ar rwystrau ac yn creu gwell cyfleoedd i fenywod a merched mewn pêl-droed.

MESUR LLWYDDIANT

- 50% o'r holl chwaraewyr 2-4 oed yn fenywaidd.
- Cynyddu nifer y merched 5-11 oed cofrestredig 100%.
- 100% o ysgolion yn cynnig cyfleoedd pêl-droed i ferched.
- Dyblu nifer y menywod cofrestredig, gan gynnwys 2,000 mwy o fenywod yn chwarae pêl-droed hamddenol
- Gostyngiad 50% yn nifer y merched 12-17 oed sy'n gadael y gêm
- 500 o fenywod a merched cofrestredig yn chwarae pêl-droed anabledd (cynnydd 400%)

AMCAN.

Ysbrydoli mwy o fenywod a merched i gymryd rhan mewn pêl-droed, cysylltu â'r gêm a datblygu ymdeimlad o berthyn.



BLAENORIAETHAU

- Creu cysylltiadau cryfach rhwng pêl-droed llawr gwlad a'r Adran Premier a'r Tîm Cenedlaethol, gan ysbrydoli chwaraewyr, teuluoedd a chymunedau i ddilyn a chysylltu â'r gêm fenywaidd.
- Creu straeon cynrychioliadol ac amrywiol, gan sicrhau bod cynnwys yn adlewyrchu amrywiaeth y gêm fenywaidd, gyda chydraddoldeb rhywedd ar draws pob cynnwys.
- Cynyddu gweledigaeth ac amrywiaeth modelau rôl benywaidd mewn pêl-droed, gan ysbrydoli menywod a merched o gymunedau Du, Asiaidd a Chymysg i gymryd rhan, datblygu a theimlo bod y gêm yn perthyn iddyn nhw.

MESUR LLWYDDIANT

- Pob clwb Adran Premier a phob un o gemau gartref y Tîm Cenedlaethol yn gyfle i ymgysylltu â'r gêm ar lawr gwlad
- Cyrraedd cynrychiolaeth rhywedd 50:50 ar draws cynnwys pêl-droed CBDC
- 100% o ymgyrchoedd pêl-droed menywod CBDC yn cynnwys cynrychiolaeth amrywiol o fenywod
- O leiaf 6.2% o'r holl chwaraewyr, hyfforddwyr a swyddogion gêm benywaidd o gymunedau Du, Asiaidd, a Chymysg.

LLEOEDD.

AMCAN.

Sefydlu'r gem fenywaidd fel enghraifft o arfer gorau mewn perthynas ag ymddygiad, disgyblaeth a diwylliant positif.



BLAENORIAETHAU

- Cryfhau mesurau diogelu, addysg ac ymddygiad cadarnhaol ar draws pêl-droed menywod a merched, gan sicrhau amgylcheddau diogel, parchus a chynhwysol i bawb.
- Adnabod, rhannu a dathlu enghreifftiau o ymddygiad, diwylliant, mesurau diogelu ac arweinyddiaeth bositif ar draws pêl-droed benywaidd i sefydlu safon gyson ar draws y gêm.
- Sefydlu Pencampwyr Iddi Hi/For Her ar draws y gêm fenywaidd i gryfhau mesurau diogelu, darparu llais benywaidd o fewn clybiau a chynyddu cynrychiolaeth menywod o fewn prosesau penderfynu clybiau.

MESUR LLWYDDIANT

- Sicrhau canfyddiad positif o leiaf 70% ('da' i 'gwych') o ymddygiadau mewn pêl-droed benywaidd.
- Sicrhau bod 100% o glybiau yn cydymffurfio â pholisïau diogelu a safonau diogelu.
- 100% o glybiau sydd â thimau Menywod a Merched gyda Phencampwr Iddi Hi / For Her ar bwyllgor y clwb.

AMCAN.

Cynyddu buddsoddiad a gwella mynediad at chwarae pêl-droed trwy ymyriadau wedi'u targedu.



BLAENORIAETHAU

- Integreiddio pêl-droed menywod a merched â phartneriaethau masnachol mewn ffyrdd ystyrlon sydd yn ychwanegu gwerth i'r gêm, y gynulleidfa a phartneriaid, tra hefyd yn cynyddu buddsoddiad a gweledigaeth.
- Defnyddio data, deallltwriaeth a thwf mewn lefelau cymryd rhan i nodi anghydraddoldebau mewn mynediad a chyfeirio buddsoddiad i ble y gall gael yr effaith fwyaf.
- Blaenoriaethu buddsoddiad mewn cyfleusterau a seilwaith i gynyddu capasiti a gwella mynediad i fenywod a merched.

MESUR LLWYDDIANT

- Cynnydd 100% yn y buddsoddiad mewn pêl-droed merched a menywod.
- Cynnydd 50% mewn mynediad gyda blaenoriaeth at gaeau chwarae ar gyfer menywod a merched.
- 3 safle Amdani Hi ledled Cymru.
- 60 o gaeau artiffisial newydd sy'n elwa chwaraewyr benywaidd yn benodol.




PILER PERFFORMIAD.

POBL.

AMCAN.

Datblygu llwybr hyfforddi a dyfarnu perfformiad uchel sy'n datblygu talent Gymreig yn barhaus ac yn cefnogi hyfforddwyr a swyddogion gemau i ragori ar bob lefel o'r gêm fenywaidd.



BLAENORIAETHAU

- Datblygu llwybr datblygu hyfforddwyr perfformiad uchel ar gyfer hyfforddwyr sy'n cefnogi datblygiad i amgylcheddau elît.
- Sefydlu llwybr cynnydd clir i ddatblygu a pharatoi'r genhedlaeth nesaf o hyfforddwyr elît.
- Cryfhau'r gefnogaeth ar gyfer dyfarnwyr gweithredol i alluogi eu cynnydd a'u datblygiad trwy'r llwybr dyfarnu.
- Cynyddu'r gynrychiolaeth o swyddogion gêm Cymreig ar lefel ddomestig, UEFA a FIFA.

MESUR LLWYDDIANT

- Cynrychiolaeth o 50% o staff technegol a chymorth benywaidd ar draws Timau Cenedlaethol Menywod a Merched Cymru
- Cynnydd o 100% yn nifer yr hyfforddwyr benywaidd a addysgwyd yng Nghymru sy'n gweithio mewn amgylcheddau rhyngwladol a chlybiau elît.
- Nodi 8-10 o hyfforddwyr potensial uchel bob blwyddyn ar raglen fentora 'Coaching HER Forward'
- 50% o gemau Cynghrair Adran yn cael eu dyfarnu gan swyddogion gêm benywaidd.
- Cynyddu cynrychiolaeth Cymru i 3 o ddyfarnwyr UEFA/FIFA a 6 o ddyfarnwyr cynorthwyol.

LLWYBRAU.

AMCAN.

Creu llwybr datblygu chwaraewyr sy'n nodi, datblygu a pharatoi talent Gymreig i lwyddo ar y lefel uchaf.



BLAENORIAETHAU

- Adeiladu rhwydwaith perfformiad cysylltiedig ar draws clybiau a thimau cenedlaethol i gryfhau prosesau adnabod talent cynnar, recriwtio, lefelau cadw a chynnydd i bêl-droed elît.
- Datblygu'r llwybr perfformiad ar gyfer merched i ddatblygu talent leol i'r eithaf a chefnogi chwaraewyr i bontio i'r tîm cyntaf.
- Cryfhau cyfleoedd i chwaraewyr feithrin profiad ar lefelau uchaf y gêm trwy gysylltiadau cryfach gyda chlybiau ac amgylcheddau elît.
- Datblygu llwybr clir, o'r cam y daw talent i'r amlwg hyd at y llwyfan rhyngwladol, gan sicrhau bod chwaraewyr uchel eu potensial yn cael y gefnogaeth, y profiadau a'r amgylcheddau personol sydd eu hangen arnynt i gyflawni eu potensial.
- Sefydlu Cymru fel presenoldeb cyson ar y llwyfan rhyngwladol, gan ddatblygu timau sy'n gallu cymhwyso a chystadlu'n llwyddiannus mewn cystadlaethau mawr.

MESUR LLWYDDIANT

- Cadw 95% o chwaraewyr sydd â chenedligrwydd deuol yn ein Timau Cenedlaethol Ifanc.
- Graddio o leiaf 2 chwaraewr, bob blwyddyn, i'n Tîm Cenedlaethol Cyntaf.
- 80% o chwaraewyr y Tîm Cenedlaethol Cyntaf yn dechrau'n rheolaidd ym mhum cynghrair gorau'r byd.
- Cymru'n cymryd rhan mewn 50% o gystadlaethau rhyngwladol mawr.
- Cyrraedd camau terfynol Cwpan y Byd Menywod FIFA 2035.
- Tîm Cenedlaethol Cymru yn cael ei raddio'n gyson ymysg y 24 tîm uchaf gan FIFA.

AMCAN.

Sefydlu'r Cynghreiriau Adran fel amgylchedd cynaliadwy a chystadleuol o ansawdd ar gyfer datblygu talent ifanc Gymreig a pharatoi chwaraewyr ar gyfer y gêm broffesiynol.



BLAENORIAETHAU

- Darparu cymorth cam wrth gam wedi'i dargedu i glybiau er mwyn codi safonau, cryfhau cystadleurwydd ac adeiladu modelau clwb cynaliadwy ar draws yr Adran Premier a gêm y menywod yng Nghymru.
- Datblygu fframwaith perfformiad-athletwr cydlynol ar draws y Cynghreiriau Adran i gefnogi datblygiad chwaraewyr a gwella dealltwriaeth o berfformiad corfforol cronfa chwaraewyr y gynghrair.
- Defnyddio data, mewnwelediad a deallusrwydd perfformiad i yrru penderfyniadau, gan wella ansawdd a chystadleurwydd y cynghreiriau domestig yn barhaus.
- Cynyddu gweledigedd, proffil ac apêl y Cynghreiriau Adran, gan dyfu cynulleidfaoedd, diddordeb ac ymgysylltiad gyda chlybiau a chwaraewyr.
- Gweithio gyda chlybiau i wella iechyd a lles benywaidd, gan wreiddio dealltwriaeth, addysg a chefnogaeth ar hyd a lled y gêm ddomestig.

MESUR LLWYDDIANT

- Adran Premier i fod ymysg 5 prif gynghrair Ewrop ar gyfer yr oedran chwarae cyfartalog ieuengaf.
- Lansio a gweithredu cynllun strategol cyntaf erioed yr Adran Premier.
- Sefydlu fframwaith perfformiad athletwyr ar gyfer holl glybiau yr Adran Premier.
- Datblygu cronfa ddata ganolog o berfformiad chwaraewyr ar gyfer yr Adran Premier.
- 100% o glybiau'r Cynghreiriau Adran gyda chynllun gweithredu datblygu menywod a merched.
- O leiaf 25% o chwaraewyr y Cynghreiriau Adran wedi pontio o'r Academïau Cenedlaethol.
- Clybiau i wella presenoldeb cyfartalog ar draws gemau'r Adran Premier o 100%.
- Cynyddu cysylltiad â'r Gynghrair Genedlaethol o 150%.
- Cynyddu buddsoddiad masnachol yn y Cynghreiriau Adran o leiaf 200%.
- 100% o glybiau'r Cynghreiriau Adran a'r Academïau Cenedlaethol yn darparu sesiynau/adnoddau addysgol ar iechyd benywaidd ac iechyd meddwl i'w chwaraewyr a'u staff.

LLEOEDD.

AMCAN.

Creu amgylcheddau perfformio o safon fyd-eang sy'n canolbwyntio ar y chwaraewr ac yn gwneud y mwyaf o botensial, lles a pherfformiad timau a chwaraewyr Cenedlaethol Cymru.



BLAENORIAETHAU

- Defnyddio grym dadansoddi, data a mewnwelediadau i yrru perfformiad elît wrth baratoi ar gyfer gemau, gweithredu a datblygu talent.
- Darparu amgylcheddau perfformio ymroddedig o ansawdd ar gyfer Timau Cenedlaethol Menywod a Merched Cymru, gan sicrhau bod cyfleusterau a mannau hyfforddi yn bodloni anghenion chwaraewyr benywaidd.
- Gwreiddio fframwaith iechyd benywaidd sy'n canolbwyntio ar y chwaraewr ar draws pob Tîm Cenedlaethol a'r llwybr ieuenctid elît, gan gynnwys sgrinio, cyfeirio, addysg a chefnogaeth briodol i wella lles a pherfformiad y chwaraewr.
- Gwreiddio diogelu ar draws pob amgylchedd perfformio, gan sicrhau bod gwersylloedd, dulliau teithio ac amgylcheddau hyfforddi yn ddiogel, yn gynhwysol ac yn cael eu cefnogi gan safonau a ffiniau clir, a sianeli adrodd dibynadwy.

MESUR LLWYDDIANT

- 90% o Chwaraewyr yn rhoi adborth cadarnhaol am eu profiadau mewn gwersylloedd, wrth hyfforddi ac wrth gystadlu gyda'r timau cenedlaethol.
- 100% o Amgylcheddau perfformio'r Tîm Cenedlaethol yn bodloni safonau y cytunwyd arnynt ar gyfer cyfleusterau penodol i fenywod, darpariaeth feddygol, diogelu a lles chwaraewyr.
- 100% o Chwaraewyr y Tîm Cenedlaethol gyda mynediad at sgrinio iechyd priodol i ferched a llwybrau cyfeirio arbenigol.
- 100% o Raglenni'r Tîm Cenedlaethol yn defnyddio dadansoddiad perfformiad a mewnwelediadau data cytunedig i lywio paratoadau chwarae, adolygiadau perfformiad a datblygu talent.

AMCAN.

Cryfhau'r cysylltiad rhwng Timau Cenedlaethol Cymru a chymunedau ledled Cymru, gan ysbrydoli balchder, ymdeimlad o berthyn a chysylltiad gydol oes gyda'r gêm fenywaidd.



BLAENORIAETHAU

- Dod â Thimau Cenedlaethol Menywod Cymru yn agosach at gymunedau ledled Cymru, gan gryfhau'r cysylltiadau rhwng chwaraewyr, hyfforddwyr, cefnogwyr a chymunedau ehangach.
- Tyfu ac amrywio cynulleidfaoedd Timau Cenedlaethol Menywod Cymru, gan ddefnyddio rhinweddau, straeon a phrofiadau unigryw pêl-droed benywaidd i ennyn diddordeb cynulleidfaoedd newydd, a meithrin ffyddlondeb hirdymor.
- Hyrwyddo diwylliant, hunaniaeth a gwerthoedd Cymru trwy'r Gymraeg, balchder cenedlaethol a dylanwad Timau Cenedlaethol y Menywod, gan greu profiadau cofiadwy sy'n cryfhau'r cysylltiad â Chymru.
- Defnyddio llwyfan a dylanwad y Timau Cenedlaethol i ysbrydoli newid cadarnhaol, gan gefnogi achosion cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol sy'n bwysig i gymunedau ledled Cymru.
- Cefnogi chwaraewyr y timau cenedlaethol i adeiladu gyrfaoedd y tu hwnt i chwarae, a'u galluogi i barhau i gyfrannu at bêl-droed a chymdeithas Cymru.
- Darparu profiadau arbennig ar ddiwrnodau gêm ac yn y gymuned sy'n creu cysylltiad a theyrngarwch oes gyda Thimau Cenedlaethol Cymru.
- Sefydlu Cymru fel cyrchfan ar gyfer digwyddiadau pêl-droed benywaidd mawr, gan weithio gyda'r Llywodraeth a phartneriaid i ymgeisio'n llwyddiannus i gynnal cystadlaethau a rowndiau terfynol mawr.

MESUR LLWYDDIANT

- Cynnal o leiaf 6 o ddigwyddiadau cymunedol gyda chwaraewyr a/neu hyfforddwyr bob blwyddyn.
- Gwerthu pob tocyn ar gyfer gêm bêl-droed y menywod yng Nghymru.
- Cynyddu torf fwyaf erioed tîm menywod Cymru o 16,845 i 25,000.
- Cefnogi o leiaf 2 chwaraewr bob blwyddyn trwy gynlluniau gyrfa ddeuol a/neu bontio.
- Annog o leiaf 2 chwaraewr bob blwyddyn i fod yn llysgenhadon ar gyfer mentrau cymdeithasol, diwylliannol neu amgylcheddol.
- Cynnal Rownd Derfynol Cynghrair Pencampwyr Merched UEFA 2029.
- Cynnal Ewros Dan 19 Menywod UEFA 2030.
- Cynnal Cwpan y Byd Menywod FIFA 2035.







CYMRYD RHAN YN HER GAME, EI DYFODOL

Mae potensial pêl-droed benywaidd yng Nghymru yn mynd ymhell y tu hwnt i le'r ydym ni heddiw. Mae'r cynllun hwn yn wahoddiad i freuddwydio'n fwy, i gredu yn yr hyn y gall y gêm ei gyflawni, a gweld eich hun yn rhan o'r daith honno. P'un a yw eich dyhead i chwarae, hyfforddi, dyfarnu, gwirfoddoli, cefnogi o'r ochr, neu gyfrannu fel partner masnachol, mae lle gwerthfawr i chi. Mae pob person sy'n camu ymlaen yn defnyddio pŵer pêl-droed i adeiladu Cymru hyderus, lwyddiannus, ac amrywiol. Byddwch yn rhan o **HER GAME, EI DYFODOL.**







I gael rhagor o wybodaeth am raglenni cymryd rhan:

Disney Playmakers

Huddle

BE Football

BE.FC

Dewch o hyd i'r holl glybiau yn eich ardal chi yma.

I fod yn hyfforddwr, gallwch ddod o hyd i ragor o wybodaeth yma.

I fod yn ddyfarnwr, gallwch ddod o hyd i ragor o wybodaeth yma.

I fod yn bartner masnachol i bêl-droed menywod a merched, gallwch ddod o hyd i ragor o wybodaeth yma.





DIOLCH.